

# Fy mhrofiad yn gweithio mewn digwyddiad rasio cynaliadwy Extreme-E Hydro prix yn yr Alban fel myfyriwr Rheoli Gwesty a Lletygarwch Rhyngwladol ym Met Caerdydd



Marios Miaris
BA (Anrh) Rheoli Gwesty a Lletygarwch Rhyngwladol
Busnes a Rheoli

Fy enw i yw Marios ac rwy'n astudio BA (Anrh) Rheoli Gwesty a Lletygarwch Rhyngwladol ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Yr hyn a'm denodd i astudio'r cwrs hwn oedd natur ddeinamig a chymdeithasol y diwydiant, a chefais brofiad o hyn yn gweithio mewn gwestai a bwytai yng Ngwlad Groeg a'r DU. Mae cael cipolwg ar wahanol agweddau ac adrannau'r diwydiant a chael sgyrsiau difyr gyda myfyrwyr a thiwtoriaid eraill yn beth sy'n cadw'r cwrs yn gyffrous i mi.

Mae rhai o uchafbwyntiau'r cwrs yn cynnwys y math o gyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau rhwydweithio gyda darpar gyflogwyr a chael cipolwg gwerthfawr o

agweddau gwahanol y sector. Rwy'n dal i fod yn fyfyriwr blwyddyn gyntaf felly rwy'n gobeithio cymryd rhan mewn llawer mwy o'r gweithgareddau hyn, ond hyd yn hyn, rwyf wedi bod yn cymryd rhan yn Passion4Hospitality yn Llundain, lle gwnaethom chwarae gêm efelychu gwestai a siarad â chyflogwyr sy'n cynnig interniaethau ledled y byd, ac, wrth gwrs, yr Extreme-E Hydro prix, lle cawsom gipolwg anhygoel ar letygarwch digwyddiad chwaraeon moduro eithafol wrth weithredu i gynnal cynaliadwyedd amgylcheddol.

Mae Extreme-E yn trefnu digwyddiadau chwaraeon moduro ledled y byd, lle mae ceir trydan arbenigol yn rasio mewn amodau eithafol. Prif nod y sefydliad yw cynnal allyriadau carbon isel er mwyn lleihau effaith negyddol ar y blaned a rhoi cyfle cyfartal i yrwyr gwrywaidd a benywaidd leihau i gymryd rhan mewn chwaraeon moduro, a'r cyfan wrth gynnal sioe anhygoel i'w gwylwyr. Roedd yn ddiddorol iawn rhoi'r damcaniaethau rheiny i ni ddysgu mewn darlithoedd ar waith, o ran technegau marchnata a phenderfyniadau moesegol.

Fe wnes i wir fwynhau sgwrsio gyda'r rheolwr lletygarwch yn Extreme- E am amcanion y cwmni a'i ffocws ar farchnata, cynaliadwyedd a phroffidioldeb. Roeddwn hefyd yn gwerthfawrogi eu sylw i fanylion wrth ddylunio'r lleoliad, lle defnyddiwyd cyflenwyr lleol, megis celf gan artistiaid o'r Alban a blancedi gwlân Albanaidd traddodiadol (gan fod y digwyddiad yn cael ei gynnal yn yr Alban).

Yn ogystal â chael y cyfle i weld sut beth yw trefnu digwyddiad o'r maint hwn, cefais gyfle hefyd i rwydweithio gyda darpar gyflogwyr y dyfodol a fynychodd ac arbenigwyr profiadol yn y diwydiant. Fe wnaeth hyn fy helpu i gynyddu fy rhwydwaith ar LinkedIn a'm helpu i ddeall yn ymarferol sut beth y bod rhan o'r math hwn o ddigwyddiad.

Gyda chyfleoedd fel hyn yn rhan o'r cwrs ni allaf ei argymell ddigon! Mae'r darlithwyr sy'n arwain modiwlau'r cwrs hwn yn ddiddorol iawn ac yn hapus i helpu myfyrwyr a'u cyfeirio at bobl yn y diwydiant er mwyn iddyn nhw gyflawni eu nodau. Bendant yn ddewis da os ydych chi'n hoffi pobl!

## Darn o dudalen y cwrs:

Myfyriwr Rheoli Gwesty a Lletygarwch Rhyngwladol, Marios, yn dweud wrthym am ei brofiad anhygoel yn gweithio mewn digwyddiad rasio cynaliadwy yn yr Alban.

## Cyfryngau cymdeithasol:

| | |
|---|---|
| **Twitter**<br><br>Cardiff Met have exclusively partnered with @ExtremeELive to offer students unique sustainable work placements 🏎️🌎<br><br>This #WorldEnvironmentDay International Hotel & Hospitality Management student, Marios, shares his experience working an Extreme E event 🔗 | Mae Met Caerdydd wedi partneru â @ExtremeELive i gynnig lleoliadau gwaith cynaliadwy unigryw i fyfyrwyr 🏎️🌎<br><br>Mae'r myfyriwr #DiwrnodAmgylchdeddyByd Rheoli Gwesty a Lletygarwch Rhyngwladol hwn, Marios, yn rhannu ei brofiad o weithio mewn digwyddiad Extreme E 🔗 |
| **Facebook / Insta / LinkedIn** | |

| | |
|---|---|
| Cardiff Met have exclusively partnered with @ExtremeELive to offer students unique sustainable work placements 🏎️💚🌎<br><br>Extreme E electric racing series race in the most remote corners of the planet to highlight climate change challenges.<br><br>This World Environment Day, International Hotel and Hospitality Management student, Marios, tells us about his incredible experience working at the sustainable racing event in Scotland.<br><br>Read more 🔗<br><br>#WorldEnvironmentDay | Mae Met Caerdydd wedi partneru â @ExtremeELive i gynnig lleoliadau gwaith cynaliadwy unigryw i fyfyrwyr 🏎️💚🌎<br><br>Maer'r gyfress rasio trydan Extreme E yn rasio yn y llefydd mwyaf anghysbell y byd i dynnu sylw at heriau newid yn yr hinsawdd.<br><br>Ar Ddiwrnod Amgylchedd y Byd, mae Marios, myfyriwr Rheoli Gwesty a Lletygarwch Rhyngwladol, yn dweud wrthym am ei brofiad anhygoel o weithio yn y digwyddiad rasio cynaliadwy yn yr Alban.<br><br>Darllenwch fwy 🔗<br><br>#DiwrnodAmgylchdeddyByd |